Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru	Y diweddaraf am raddau sylfaen	Arolwg Rhanddeiliaid 2010	Newyddion diweddaraf am y Coleg Ffederal	Wythnos prifysgolion	Rhoi i brifysgolion
Briffiau amgylcheddol	Gweithio gyda busnesau	Gwobrau Iechyd yn y Gwaith	Digwyddiadau	Rydym am i chi gymryd rhan	Y cylchlythyrau diweddaraf

Cyfeiriadau newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru

Ers i ni dderbyn ein llythyr cylch gwaith gan y Gweinidog Addysg ym mis Mawrth, buom yn ymgynghori ac yn ystyried sut, gyda'i arweiniad ychwanegol, y gallwn weithredu'n fwyaf effeithiol strategaeth a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Er Mwyn Ein Dyfodol,* a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2009..

Mae datblygiadau newydd yn cynnwys:

Strategaeth gorfforaethol newydd CCAUC.

Mae hon yn amlinellu sut y disgwyliwn i addysg uwch (AU) fynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef cyfiawnder cymdeithasol ac economi bywiog, yn ystod y blynyddoedd i ddod. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r strategaeth yn fuan.

Datblygu dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflwyno addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi arweiniad i brifysgolion a'u partneriaid yng Nghymru ar gyflwyno strategaethau rhanbarthol, sy'n dangos sut y gallant weithio gyda'i gilydd i gwrdd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol a lleihau dyblygu diangen. Bydd cydweithio rhwng sefydliadau AU a cholegau addysg bellach, darparwyr addysg ôl-16, awdurdodau lleol, Cynghorau Sgiliau Sector, cyflogwyr, grwpiau cynrychiadol, ac ati, yn helpu dysgwyr i symud ymlaen o'r ysgol i addysg bellach ac uwch neu i ddysgu yn y gwaith, ac yn mynd i'r afael â phrinder sgiliau yr

un pryd. Rydym wedi diffinio tri 'rhanbarth' ar draws Cymru yr anogir partneriaid i gydweithio o fewn eu ffiniau i wella darpariaeth, wrth barhau i ymgymryd â'u rolau ehangach ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.

Y nod yw gwella darpariaeth yn rhanbarthol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr y mae cyfyngiadau daearyddol, am ba reswm bynnag, yn effeithio arnynt, ac ar gyfer cyflogwyr sy'n ceisio cymorth addysg uwch, o ba fath bynnag, yn lleol.

Y diweddaraf am raddau sylfaen

Cymhwyster lefel uwch rhan-amser neu amser-llawn dwy flynedd yw'r radd sylfaen sy'n pontio'r bwlch rhwng mynediad cychwynnol i addysg uwch a'r radd anrhydedd, ac sy'n caniatáu dilyniant i lefel anrhydedd. Bwriedir iddi ddarparu sgiliau allweddol addysg uwch generig ynghyd â gwybodaeth academaidd a galwedigaethol eang.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i ni baratoi Polisi Gradd Sylfaen, mewn ymateb i *Er Mwyn Ein Dyfodol* a *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth.*

Mae'r cymhwyster gradd sylfaen, a gyflwynwyd gyntaf yng Nghymru yn 2001:

- yn helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau cenedlaethol drwy gynhyrchu graddedigion sy'n meddu ar sgiliau lefel ganolradd
- yn ehangu addysg uwch ac yn ei gwneud yn fwy fforddiadwy yr un pryd i amrywiaeth ehangach o fyfyrwyr helps address a national skills shortfall by supplying graduates equipped with intermediate level skills
- yn dwyn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a chyflogwyr ynghyd mewn partneriaeth i lunio a chyflwyno cyrsiau sy'n hybu cynhwysiant cymdeithasol.

Mae'r polisi, y gobeithiwn ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, yn dwyn ynghyd yr arweiniad a gyhoeddwyd ar y cymhwyster gradd sylfaen a'r amryfal gynlluniau sy'n hybu'r cymhwyster yng Nghymru ar hyn o bryd. Disgwyliwn gyhoeddi cymorth pellach ar gyfer graddau sylfaen drwy'r strategaeth ranbarthol a amlinellwyd uchod yn ddiweddarach yn 2010.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Arolwg Rhanddeiliaid 2010

Cynhaliwyd ein harolwg cyntaf o farn rhanddeiliaid a phartneriaid yn 2007. Byddwn, ymhen ychydig, yn penodi ymgynghorwyr i gynnal ail arolwg yn yr hydref, pryd y byddwn yn gofyn i sefydliadau addysg uwch a chyrff eraill yng Nghymru ac yn ehangach am ein perfformiad a'n perthnasoedd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gobeithiwn y bydd y rheiny y gofynnir iddynt gwblhau'r arolwg yn barod i siarad yn agored a gonest gyda'n hymgynghorwyr fel y gallwn ddarganfod ble y mae ein cryfderau, ydym wedi gwneud cynnydd ers yr arolwg diwethaf a sut i wella ein gwasanaethau.

Arolwg Rhanddeiliaid 2007:
www.hefcw.ac.uk/publications/corporate_documents/external_stakeholder_survey_cy.aspx

Newyddion diweddaraf am y Coleg Ffederal

Bydd y Coleg Ffederal yn cynnal, datblygu a goruchwylio addysg uwch cyfrwng Cymraeg, gan weithio gyda a thrwy'r prifysgolion yng Nghymru. Mae Bwrdd Gweithredu yn ei le bellach i sefydlu'r Coleg Ffederal. Bydd y Bwrdd, dan gadeiryddiaeth Geraint Talfan Davies, yn datblygu trefniadau ar gyfer trin cyllid, ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, datblygu strwythur rheoli a staffio'r Coleg, a throsglwyddo cyfrifoldeb i'w gorff llywodraethu, y Cyngor Cenedlaethol, fel y gall y Coleg groesawu ei fyfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2011.

CCAUC dros addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Wythnos Prifysgolion

14 – 20 Mehefin 2010

Q: Beth mae prifysgolion wedi'i wneud i ni?

A: Cryn dipyn, a deud y gwir.

Bydd dros 100 o brifysgolion a chyrff yn dathlu cyfraniad addysg uwch a phrifysgolion i'r economi, diwylliant, cymdeithas, yr amgylchedd a llawer mwy o'r 14eg o Fehefin.

Cynhelir digwyddiadau lleol a chenedlaethol i ddangos beth sydd gan brifysgolion i'w gynnig ac i dynnu sylw at rai o'r Syniadau Mawr sy'n dod ohonynt.

> *"Dydy prifysgolion ddim i bawb ond mae pawb mewn cymdeithas yn cael budd ohonynt. Maen nhw'n fuddsoddiad yn nyfodol pob un ohonom."* ***Sanjeev Bhaskar, actor, a Changhellor Prifysgol Sussex***

Yn dilyn lansiad cenedlaethol, cynhelir wythnos o weithgareddau ar-lein a thrwy gyfryngau eraill. Bob diwrnod, rhoddir sylw penodol i un o gryfderau prifysgolion, gan ganolbwyntio ar fuddion i fusnes a'r economi; addysgu a dysgu; dylanwad ymchwil gan brifysgolion; profiadau personol; y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon; a phrifysgolion yn y gymuned.

Bydd pobl yn gallu cyrchu tudalen Facebook sy'n cynnwys llu o hanesion, erthyglau a chyfraniadau gan gynfyfyrwyr enwog, tra bydd y wefan Wythnos Prifysgolion yn rhoi gwybodaeth am beth sydd ymlaen a sut y gall prifysgolion gymryd rhan. Mae'r cydlynwyr, Prifysgolion y DU, yn annog cymaint o bobl â phosibl i ymuno â'r dudalen Facebook, ac i gynnwys y ddau gyswllt uchod ar gyfryngau cymdeithasol, mewn newyddlenni, ar wefannau, ac yn y blaen.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Rhoi i brifysgolion

Derbyniodd prifysgolion Cymru bron £2 filiwn ar ffurf rhoddion ariannol y llynedd – cynnydd o 36% o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Dangosodd yr arolwg Ross-CASE blynyddol, yr unig ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer incwm dyngarol i addysg uwch yn y DU, i 1,248 o bobl neu gyrff wneud rhoddion ariannol i brifysgolion yng Nghymru yn 2008-09, cynnydd o 140% ers y flwyddyn ddiwethaf. I weld rhagor o wybodaeth ewch i www.rosscasesurvey.org.uk/.

Fel cyrff elusennol, dibynnant ar roddion dyngarol am lawer agwedd ar eu gwaith - o ymgymryd ag ymchwil arloesol ac adeiladu cyfleusterau newydd i ddarparu bwrsarïau ar gyfer myfyrwyr dawnus na fyddent yn gallu fforddio mynd i brifysgol fel arall.

Mae cynllun arian cyfatebol £10 miliwn CCAUC ar gyfer rhoi gwirfoddol yn gwarantu arian ychwanegol - cyfatebol - gan CCAUC i gynyddu gwerth rhoddion i sefydliadau addysg uwch gan gyrff ac unigolion, gan gynnwys cynfyfyrwyr.

Yn sgil llwyddiant Cynllun Arian Cyfatebol cyffelyb yn Lloegr, mae'r Cyngor dros Hyrwyddo a Chefnogi Addysg (CASE) yn lansio ymgyrch yng Nghymru a Lloegr i wneud pobl yn fwy ymwybodol o rôl dyngarwch mewn addysg uwch ac i hyrwyddo meddylfryd o roi i brifysgolion. Bydd yr ymgyrch, sy'n dwyn y teitl 'Bywyd pwy y byddwch chi'n ei newid?', yn canolbwyntio ar effaith rhoddion elusennol ar brifysgolion a'r cyflawniadau ehangach sy'n bosibl o ganlyniad i'w derbyn, gan gynnwys ymchwil meddygol, datblygiadau mewn polisi cymdeithasol, ysgoloriaethau a gwell mynediad i addysg uwch.

I ddarganfod rhagor am yr ymgyrch ewch i www.giftofknowledge.org.uk.*[*

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Briffiau amgylcheddol

Mae rhwydwaith Sefydliad Amgylcheddau Cynaliadwy Cymru (WISE) gan Brifysgolion Bangor, Abertawe ac Aberystwyth wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr Effaith Amgylcheddol PraxisUnico sy'n cydnabod entrepreneuriaeth mewn busnesau sydd â chanolbwynt amgylcheddol.

www.wisenetwork.org/

Mae tîm Willmott Dixon Construction Limited sy'n adeiladu campws newydd Prifysgol Cymru, Casnewydd wedi ennill gwobr aur o dan y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol.

www.ccscheme.org.uk/index.php/site-registration/awards-site-awards

Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Gweithio gyda busnesau

Mae'r Rhaglen Mewnwelediad Strategol (SIP) a gyllidir gan CCAUC yn helpu staff ym Mhrifysgol Morgannwg, Coleg Brenhinol Celf a Drama Cymru, Prifysgol Cymru, Casnewydd ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC) i ddatblygu a meithrin perthnasoedd gyda phartner gyrff drwy roi lleoliadau tymor-byr iddynt mewn busnesau. Mae o gymorth iddynt ddod i ddeall busnesau a'u hanghenion ac yn eu galluogi i adnabod meysydd lle y gall y prifysgolion yn eu tro helpu'r busnesau, yn ogystal â datblygu syniadau ar y naill ochr a'r llall.

Mae'n gredyd i'r sefydliadau dan sylw a chanlyniadau'r rhaglen fod y model a'r brand SIP wedi cael eu mabwysiadu gan Brifysgol Westminster a fydd yn manteisio ar y rhaglen am ychydig dros flwyddyn.

www.siprogramme.org.uk/

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Gwobrau Iechyd yn y Gwaith

Derbyniodd CCAUC wobr arian iechyd yn y gwaith yn Stadiwm y Mileniwm Caerdydd ar 12 Mai. CCAUC oedd y corff cyntaf yng Nghymru i dderbyn gwobr iechyd gweithlu bach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y lefel arian ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae corff effeithiol yn gofalu am les ei staff. Mae rhoi pwyslais ar iechyd a lles drwy gyfrwng ein hadnoddau, polisïau, diwylliant a gwerthoedd yn helpu i symbylu a chynnal gweithlu uchel ei gyflawniadau."

Digwyddiadau

Warsaw, Gwlad Pwyl: Astudiaethau Doethurol yn Ardal Addysg Uwch Ewrop

17-18 Mehefin 2010

Mae Tîm Arbenigwyr Bologna Gwlad Pwyl ac Asiantaeth Genedlaethol Erasmus RhDG (LLP) Gwlad Pwyl yn gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch i'r Seminar Bologna rhyngwladol "**Astudiaethau Doethurol yn Ardal Addysg Uwch Ewrop**", a gynhelir yn **Warsaw** ar **17-18 Mehefin 2010**. Bydd y seminar yn trafod sut mae'r Broses Bologna wedi dylanwadu ar addysg ddoethurol, ac ym mha gyfeiriad y dylai ddatblygu, ac fe'i harweinir gan arbenigwyr ar astudiaethau doethurol o Gyngor Addysg Ddoethurol Cymdeithas Prifysgol Ewrop (EUA), Prifysgolion Awstria, Prifysgol Bryste ac Arbenigwyr Bologna Gwlad Pwyl.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i **wefan y seminar :** phd.erasmus.org.pl.

Prifysgol Plymouth: Cyrraedd fesul gradd: cynhadledd ar raddau carlam (Baglor dwy flynedd) a dysgu hyblyg

18 Mehefin 2010

Bydd y gynhadledd ddi-dâl hon, a gefnogir gan yr Academi Addysg Uwch a CCAULl, yn edrych ar sut y gall sefydliadau ymateb i geisiadau i ddod yn fwy hyblyg, ac yn ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu cyrsiau.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Mehefin 2010

Prifysgol Bologna, Yr Eidal: Tuag at Brifysgolion sy'n Gynaliadwy yn Ariannol II: Amrywiaethu Ffrydiau Incwm

13-14 Medi 2010

Bydd y gynhadledd lefel uchel hon yn dwyn ynghyd arbenigwyr o bob rhan o Ewrop i drafod yr elfennau allweddol y bydd eu hangen i sicrhau y gall prifysgolion oroesi'n ariannol yn y dyfodol, a rhoddir pwyslais arbennig ar amrywiaethu incwm.

www.eua.be/events/eudis-experts-conference/home/

Rydym am i chi gymryd rhan

Mae CCAUC wedi ymrwymo i gyfathrebu â'i staff, rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd mewn ffyrdd sy'n cwrdd orau â'u hanghenion a dewisiadau unigol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn natblygiad Cynllun Cydraddoldeb nesaf CCAUC yn ystod yr haf, neu mewn helpu gydag asesiadau effaith cydraddoldeb, byddwch cystal â chysylltu â ni mor fuan â phosibl yn equality@hefcw.ac.uk fel y gallwn eich ychwanegu at ein cronfa ddata o randdeiliaid. Câi eich manylion eu storio'n ddiogel a chyfrinachol ac ni chaent eu rhannu â sefydliadau neu drydydd partïon.

Y cylchlythyrau diweddaraf

W10/16HE: Arweiniad ar Baratoi Strategaethau Rhanbarthol ar gyfer Cynllunio a Chyflwyno Addysg Uwch

Rhoddir arweiniad ar baratoi strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chyflwyno addysg uwch.

W10/15HE: Ceisiadau am Ragolygon 2010

Mae'n gofyn i sefydliadau addysg uwch ddarparu: rhagolygon ariannol ar gyfer 2009/10 hyd 2013/14; rhagolygon o niferoedd myfyrwyr ar gyfer 2010/11 hyd 2013/14; a niferoedd staff.

W10/14HE: Datganiadau Monitro Blynyddol 2010

Mae'n gofyn i sefydliadau addysg uwch gyflwyno Datganiadau Monitro Ariannol ar gyfer 2010 i alluogi CCAUC i fonitro ffrydiau cyllid arwahanol.